

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: POLISI

Teitl: POLISI AR LARYNGOSGOPAU UNTRO AC AMLDRO

Dyddiad Terfyn/Adolygu: 14 Medi 2021

I'w weithredu gan:

Arweinwyr dihalogi lefel Byrddau a lefel weithredol –
i'w rannu â phob cydweithiwr perthnasol gan gynnwys,
er enghraifft, staff theatrau a staff gofal heb ei drefnu
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio
Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddor Gofal Iechyd
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru –
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Amserlen y camau gweithredu angenrheidiol:

Ar unwaith gan gydymffurfio'n llawn o fewn
blwyddyn ar ôl dyroddi'r canllawiau hyn

Er gwybodaeth i:

Grŵp Cyngori Cymru Gyfan ar Ddihalogi a
Sterileiddio
Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd –
Prif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Anfonwr a manylion cyswllt Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Jenny Thorne, Yr Is-adran Gofal Iechyd Poblogaethau. Drwy e-bost yn unig os gwelwch yn dda -
jenny.thorne@llyw.cymru

Dogfen(nau) amgaeedig:

Dim

Cyflwyniad

Dyfeisiau meddygol yw laryngosgopau a ddefnyddir wrth reoli llwybr anadlu cleifion, ac wrth roi tiwb ynddo. Yn sgil eu dyluniad ergonomig, anghenion gafael cysylltiedig ar gyfer y defnyddiwr, a gosodiad y llafn, mae'n hawdd i handlenni laryngosgopau gael eu halogi wrth eu defnyddio ac maent hefyd yn gallu bod yn anodd iawn eu glanhau.

I ddiogelu cleifion, y dull **mwyaf diogel** yw prynu laryngosgopau untro a'u gwaredu ar ôl eu defnyddio ar gleifion unigol yn ystod un cyfnod gofal (ni ddylid eu hailbroseu a'u defnyddio eto hyd yn oed ar yr un claf).

Serch hynny, os defnyddio laryngosgopau amlbro yw'r polisi lleol, rhaid eu dihalogi a'u sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr gan ddefnyddio methodolegau awtomataidd/wedi'u dilysu a chan adrannau gwasanaethau sterileiddio achrededig.

Y Cefndir

Mae pryderon ynghylch laryngosgopau amlbro wedi'u codi o bryd i'w gilydd dros y blynyddoedd. Yn 2011, cafodd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) adroddiad Crwner o gwest a ganfu fod marwolaeth claf wedi'i hachosi gan fethiant i ddihalogi handlen laryngosgop yn briodol rhwng pob defnydd ar gleifion.

Yn sgil hynny, argymhellodd Rhybudd Dyfais Feddygol (MDA/2011/0096) y dylai pob sefydliad adolygu a diweddarau gweithdrefnau lleol i sicrhau bod handlenni laryngosgopau amlbro yn ddiogel i'w defnyddio eto ar gleifion. Ers hynny, mae sefydliadau wedi gweithredu llawer o fesurau i leihau'r risg o ddigwyddiad tebyg. Serch hynny, mae heriau ynghlwm wrth aildefnyddio handlenni (a llafnau) amlbro, o ran eu dihalogi. Mae llawer o sefydliadau felly wedi cymryd y cam mwyaf diogel drwy ddechrau defnyddio laryngosgopau untro yn unig.

Camau gweithredu

Rhaid i sefydliadau sicrhau bod dyfeisiau o'r fath (handlenni a llafnau) **naill ai**

- yn rhai a ddefnyddir unwaith yn unig **neu**
- yn rhai pwrpasol ar gyfer eu defnyddio fwy nag unwaith gyda systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu dihalogi'n briodol rhwng pob defnydd ar gleifion

Rhaid iddynt roi prosesau rheoli risg clir ar waith i sicrhau mai dim ond un o'r ddau ddewis uchod sy'n cael ei weithredu gan bob defnyddiwr ledled eu hardal. Bydd angen iddynt hefyd gadarnhau cydymffurfiaeth lawn i Grŵp Cynghori Cymru Gyfan ar Ddihalogi a Sterileiddio erbyn 1 Medi 2021.

Os defnyddio laryngosgopau untro (handlenni a llafnau) yw'r polisi lleol, rhaid eu defnyddio unwaith yn unig ac yna eu gwaredu.

Os bydd dyfeisiau aml dro yn parhau i gael eu defnyddio, rhaid i strategaethau ar gyfer dihalogi handlenni ddarparu'r lefel ddihalogi uchaf posibl rhwng pob claf. Rhaid i ailbrosesu o'r fath ddefnyddio diheintwyr golchi awtomataidd a sterileiddio ager yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr o fewn adrannau gwasanaethau sterileiddio achrededig. Mae angen cynnal a chadw'r dyfeisiau hyn yn briodol drwy, er enghraifft, gontractau gwasanaeth â'r gwneuthurwyr a rhaid eu newid am un newydd pan fo angen. Dylid eu pacio mewn modd priodol ac yna eu storio mewn ffordd a fyddai'n atal ailhalogi.

Nid yw defnyddio clytiau neu weiniau (neu orchudd cydnaws) na diheintio cemegol yn ddulliau digonol i ddihalogi rhwng cleifion. Pan ddefnyddir gwain, rhaid iddi fod yn un untro a rhaid ei gwaredu ar ddiwedd y driniaeth glinigol.

Wrth i dechnoleg ddatblygu, mae defnyddio laryngosgopau fideo yn dod yn fwyfwy cyffredin a gall y rhain fod yn rhai untro neu'n rhai pwrpasol ar gyfer eu defnyddio fwy nag unwaith. Pan ddewisir y rhai aml dro, rhaid eu dihalogi yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr gan ddefnyddio systemau awtomataidd wedi'u dilysu.

Yn aml, prynir dyfeisiau arloesol o'r fath drwy sianeli anffurfiol. Serch hynny, ni ddylid eu prynu na'u cyflwyno i'r sefydliad ar fenthyg heb ystyried gweithdrefnau dihalogi priodol. Dylai systemau fod wedi'u sefydlu i sicrhau ymgynghori, cyn prynu, â grwpiau dyfeisiau meddygol perthnasol o fewn y sefydliad. Bydd grwpiau o'r fath yn cynnwys cynrychiolwyr sydd wedi'u hyfforddi yn egwyddorion dihalogi a rheoli haint. Gall sefydliadau hefyd ofyn am gyngor gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol.

Pan fo blaenoriaethau o ran diogelu cleifion yn pennu mai'r rhai untro yw'r dewis gorau, rhaid ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael o ran ailgylchu gwastraff. Bydd hyn yn helpu i leihau effaith amgylcheddol y polisi.